NODIADAU CANLLAW - I YRWYR TRWYDDEDIG NEWYDD

ADRAN	TUDALEN
Cyflwyniad	1
Cyn y prawf	2
Beth i'w ddisgwyl ar y diwrnod	3
Wedi'r prawf	9
Uwchraddio i fod yn Yrrwr Cerbyd Hacni	11
Cwestiynau Cyffredin	12

CYFLWYNIAD

Datblygwyd y canllaw hwn i'ch helpu i basio'r prawf Gwybodaeth, sef y cam cyntaf i ddechrau'r broses o gael y drwydded y bydd arnoch ei hangen. Fe gewch wybodaeth am lle y cynhelir y prawf, beth fydd yn cael ei gynnwys yn y prawf gan gynnwys enghreifftiau o gwestiynau, a syniadau i'ch cynghori.

Bydd y prawf wedi ei seilio ar y wybodaeth yn y canllaw hwn, ac y mae'n bwysig i chi gymryd amser i'w ddarllen er mwyn i chi ddeall popeth sydd ei angen i basio'r prawf yn llwyddiannus. Mae'n bwysig nodi mai chi sy'n gyfrifol am ddysgu hyn.

I fod yn yrrwr Llogi Preifat / Cerbyd Hacni i Gyngor Dinas Casnewydd mae angen i chi adnabod Casnewydd yn well na'r rhan fwyaf o bobl. Rhaid i chi ddeall yr holl amodau trwyddedu a'r ddeddfwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi gwasanaeth o safon uchel a sicrhau eich bod chi a'ch teithwyr yn ddiogel.

GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN BAROD I GYMRYD Y PRAWF - Bob tro mae ymgeisydd yn cymryd y prawf gwybodaeth, mae'n rhaid iddi/o dalu ffi llawn am y prawf. Gofalwch eich bod yn paratoi'n iawn, a gallwch osgoi gorfod ail-gymryd y prawf a thalu ffioedd eto.

COFIWCH MAI PASIO'R PRAWF GWYBODAETH YW'R CAM CYNTAF AR Y FFORDD I DDOD YN YRRWR TRWYDDEDIG PROFFESIYNOL

CYN Y PRAWF

Hysbysiad

Unwaith i chi wneud cais ar-lein byddwch yn derbyn hysbysiad e-bost yn rhoi manylion am pryd a lle y bydd eich prawf a pha ddogfennau y bydd angen i chi ddod gyda chi. Dylech dderbyn yr hysbysiad hwn ymhen 3 diwrnod gwaith o gyflwyno eich ffurflen gais. Gan mai trwy ebost yr anfonir yr hysbysiad, mae'n hanfodol bwysig i chi roi cyfeiriad ebost dilys. Os nad ydych wedi derbyn yr ebost, cofiwch fwrw golwg ar eich gosodiad spam/post sbwriel cyn cysylltu â'r Adran Drwyddedu.

Lleoliad

Cynhelir y prawf yn y ganolfan ddinesig. **Os bydd hyn yn newid am unrhyw reswm, cewch wybod trwy ebost.**

Parcio

Mae'r maes parcio cyhoeddus (talu ac arddangos) nesaf at y Ganolfan Ddinesig oddi ar Heol Faulkner. Mae'n brysur iawn trwy'r dydd a dim ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd. Mae maes parcio talu ac arddangos mawr hefyd tu ôl i'r orsaf drenau. Os bydd ar ymgeisydd angen lle i barcio, mae'n well cyrraedd yn gynnar, yn enwedig os yw'n gorfod parcio mewn stryd gefn (yn gyfreithlon) neu mewn maes parcio cyhoeddus arall.



Os bydd ymgeisydd yn hwyr am na allodd ddod o hyd i le i barcio, ni fydd hyn yn esgus perthnasol, ac ni chaiff gymryd y prawf.

BETH I'W DDISGWYL AR Y DIWRNOD

Dylid nodi mai ar ddydd Gwener y cynhelir y prawf fel arfer (Gwener olaf y mis fel rheol) ac y dylai'r ymgeisydd wneud y trefniadau priodol i fod yno'n brydlon a pharatoi i gymryd o **leiaf 3 awr o'i dd/diwrnod** (nid yw hyn yn cynnwys amser teithio i'r lleoliad).

BYDD TAIR RHAN I'R PRAWF GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD AR DDIOGELU RHAG CAM-FANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT (CRhB) (TUA 60 MUNUD)

Yn yr hysbysiad, bydd pob ymgeisydd wedi derbyn copi o'r daflen isod (yn yr ebost) yn rhoi amlinelliad byr o Ddiogelu a CRhB.



Y rheswm fod gyrrwyr trwyddedig yn cael hyfforddiant am y pwnc hwn yw mai am mai hwy yw llygaid a chlustiau'r Ddinas a'r cyffiniau. All plismona'n unig ddim delio â'r mater difrifol hwn, ac felly, trwy weithio mewn partneriaeth â'r heddlu a chyrff eraill, fe allwch wneud gwahaniaeth

Rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y daflen hon cyn y prawf. Ar y diwrnod, dangosir DVD i chi a bydd y swyddog yn rhoi cyflwyniad manylach am bwysigrwydd diogelu wrth gludo plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, a'r ffordd briodol y disgwylir i yrrwr trwyddedig ymddwyn.

Mae mwy o wybodaeth yma.

2. Y PRAWF GWYBODAETH LLOGI PREIFAT (TUA 90 MUNUD)

Ar ôl y cyflwyniad, bydd y prawf yn cychwyn yn syth wedyn. Mae iddo 7 adran, a rhaid i chi eu pasio i gyd er mwyn bwrw ymlaen â'r broses.

1. Saesneg Sylfaenol (Gwrando a Deall)

2. Saesneg Sylfaenol (Atebion Gorau)
3. Gwybodaeth am Gasnewydd (Adran Fapiau)
4. CRhB/Diogelu
5. Y Gyfraith ar Drwyddedu Llogi Preifat
6. Rheolau'r Ffordd Fawr
7. Rhifedd

Yma fe welwch y canlynol –

- **Disgrifiad o bob adran**
- **Faint o gwestiynau sy'n rhaid eu hateb yn gywir ym mhob adran**
- **Enghreifftiau o gwestiynau**
- **Gwybodaeth mae'n rhaid i chi ddysgu a lle i'w gael**

ADRAN 1 – GWRANDO A DEALL (ADRAN SAESNEG SYLFAENOL) (AML-DDEWIS)

Dyma'r cyntaf o'n **hadrannau Saesneg Sylfaenol**. Ar y papur prawf fe welwch bedwar ateb amlddewis posib i bob un o'r **5 cwestiwn** **(Y marc pasio am yr adran hon yw 4 allan o 5)**

Bydd y swyddog yn darllen allan **BUMP** o frawddegau unigol **(fydd ddim ar y papur prawf)** a bydd gofyn i chi **gyfatebu'r hyn a glywch** trwy roi CYLCH **(neu'r hyn sy'n cyfateb)** o gwmpas yr hyn dybiwch chi yw'r ateb cywir. **DARLLENIR POB BRAWDDEG ALLAN DDWYWAITH.**

Enghraifft o frawddeg

Bydd y swyddog yn darllen y canlynol yn uchel ddwywaith

"RWYT TI I FOD I GODI RHYWUN YN 16 CILGANT MEDLOCK"

Byddwch wedyn yn marcio beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

A) 16 Clôs Medlock B) 16 Rhodfa Medlock

C) 60 Cilgant Medlock **D) 16 CILGANT MEDLOCK**

ADRAN 2 – ATEBION GORAU (ADRAN SAESNEG SYLFAENOL) (AML-DDEWIS)

Dyma'r ail o'n **hadrannau Saesneg Sylfaenol**. Fel gydag adran 1, fe welwch eto 4 ateb amlddewis am bob cwestiwn. Y tro hwn, bydd **10 cwestiwn.** **(Y marc pasio am yr adran hon yw 8 allan o 10)**

Bydd y swyddog yn darllen **DEG** brawddeg unigol yn uchel **(fydd ddim ar y papur prawf)** a bydd gofyn i chi **ddewis yr ateb gorau i bob brawddeg** trwy roi CYLCH **(neu'r hyn sy'n cyfateb)** o gwmpas yr hyn dybiwch chi yw'r ateb cywir. **DARLLENIR POB BRAWDDEG YN UCHEL DDWYWAITH.**

Enghraifft o frawddeg

Bydd y swyddog yn darllen y canlynol yn uchel ddwywaith

"MAE EICH TEITHIWR YN GOFYN I CHI EI GLUDO I THEATR Y RIVERFRONT, BETH FUASECH CHI'N DDWEUD?"

Byddwch wedyn yn marcio beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

A) Fe ddylech chi wybod **B) Iawn, fe â'i â chi**

C) Dyw hi ddim yn bell. Fe allwch gerdded D) Dim ots gen i

WEDI ADRAN 2, FYDD DIM MWY O GWESTIYNAU YN CAEL EU DARLLEN ALLAN AC FE GEWCH AMSER I GWBLHAU'R 5 ADRAN SY'N WEDDILL AR Y PAPUR.

ADRAN 3 – CWESTIYNAU A-Z (GWYBODAETH AM GASNEWYDD) (CYMYSGEDD O AML-DDEWIS AC YSGRIFENNU'R ATEB)



SYNIAD DA – DYSGWCH SUT I DDARLLEN MAP A-Z. RYDYM NI'N DEFNYDDIO ATLAS A-Z STRYDOEDD CAERDYDD/CASNEWYDD. FE ALLAI FOD O WERTH I CHI BRYNU UN O SIOP LYFRAU

Nid ydym bellach yn darparu'r mapiau A-Z hyn; fe fydd copïau o'r mapiau yng nghefn y papur, ond argymhellwch yn gryf eich bod yn prynu'r map eich hun a dod ag ef gyda chi i'r prawf fel y gallwch ei ddefnyddio.

Gan ddefnyddio Map A-Z, bydd gofyn i chi roi'r ateb cywir i bob un o'r **6 chwestiwn** sy'n ymwneud â **mannau o ddiddordeb yn ARDAL CASNEWYDD.** **(Y marc pasio am yr adran hon yw 5 allan o 6)**

Enghraifft 1 ar bapur y prawf

Enwch yr atyniad i ymwelwyr sydd oddi ar gyffordd 28 yr M4

a) Castell Casnewydd b) Amffitheatr Rufeinig

c) Tŷ Tredegar d) Canolfan Camlas 14 Loc

Awgrym
Mae modd dod o hyd i'r rhan fwyaf o fannau o ddiddordeb ym mynegai'r Map A-Z a gallwch ddod o hyd iddynt naill ai mewn COCH neu LAS

Byddwch wedyn yn marcio (trwy roi cylch) beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir

a) Castell Casnewydd b) Amffitheatr Rufeinig

c) Tŷ Tredegar d) Canolfan Camlas 14 Loc

Enghraifft 2 ar bapur y prawf

Enwch yr Ysgol sydd i'w gweld ar dudalen 19 y map gyda'r cyfeirnod grid 6H

Ateb_____

Wedyn byddwch yn ysgrifennu i lawr beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

Ateb_____**Ysgol Uwchradd Casnewydd** _____

ADRAN 4 – PLANT, POBL IFANC AC OEDOLION BREGUS (AML-DDEWIS)

Yn dilyn ymlaen o'r cyflwyniad er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn deall y pwnc; bydd yr adran hon yn cynnwys 10 o gwestiynau amlddewis. Rhaid i chi ddewis yr ateb(ion) cywir i bob cwestiwn trwy roi cylch o gwmpas yr hyn dybiwch chi yw'r ateb cywir **(Y marc pasio am yr adran hon yw 9 allan o 10)**

SYNIAD DA - ADOLYGWCH Y DDOGFEN DDIOGELU A'R COD YMDDYGIAD I YRWYR

Enghraifft ar bapur y prawf

Er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl, beth na ddylai gyrrwr wneud?

a) Cofleidio, rhoi cwtsh neu gael unrhyw gyswllt diangen
b) Gwneud unrhyw sylwadau personol

c) Defnyddio termau anwyldeb, megis cariad, bach, etc

d) Defnyddio iaith frwnt neu amhriodol

e) Y cyfan o'r uchod

ADRAN 5 – Y GYFRAITH AR DRWYDDEDU PREIFAT (AML-DDEWIS)

Bydd ymgeiswyr yn cael eu profi ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gyfraith ac amodau a pholisïau'r cyngor. Cynhwysir hefyd faterion am anabledd y gallant ddod ar eu traws (o gofio'r ystyriaethau arbennig y mae'n rhaid eu gwneud wrth ymdrin â theithwyr â galluoedd corfforol gwahanol) **(Y marc pasio am yr adran hon yw 16 allan o 85).**

AWGRYM – ER MWYN PARATOI AM YR ADRAN HON, MAE'N BWYSIG I CHI DDYSGU'R CANLYNOL -

a) AMODAU I YRWYR COD YMDDYGIAD I YRWYR
b) AMODAU I GERBYDAU
c) POLISI TRWYDDEDU CYFLAWN CERBYDAU HACNI A LLOGI PREIFAT

Enghraifft 1 ar bapur y prawf

Os bydd Swyddog Trwyddedu yn archwilio eich cerbyd ac yn gweld fod gennych deiar diffygiol, pwy sy'n gyfrifol?

A) Chi y gyrrwr B) Ceidwad cofrestredig y cerbyd

C) Perchennog y cerbyd D) Canolfan MOT

Byddwch wedyn yn marcio (trwy roi cylch) beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

A) Chi y gyrrwr B) Ceidwad cofrestredig y cerbyd

C) Perchennog y cerbyd D) Canolfan MOT

Enghraifft 2 ar bapur y prawf

Cawsoch Drwydded Llogi Cerbyd Preifat - lle mae dangos y plât cefn?

a) Yn fewnol – yn y ffenest gefn (gyda blue tack)

b) Yn allanol – nesaf at y bymper cefn ac wedi ei osod yn ddiogel.

c) Yn allanol - wedi ei wasgu dan y plât rhif cefn

d) Yn allanol – nesaf at y bymper cefn ac wedi ei lynu gyda Velcro

Byddwch wedyn yn marcio (trwy roi cylch) beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

ADRAN 6 – RHEOLAU'R FFORDD FAWR (AML-DDEWIS)

Gofynnir i chi ateb nifer o gwestiynau amlddewis am sgiliau gyrru, gwybodaeth am y ffordd a sut i ymddwyn arni, fel sydd wedi'i osod allan yn Rheolau'r Ffordd Fawr **(Y marc pasio yw 10 allan o 12).**

AWGRYM - ATGOFFWCH EICH HUN AM REOLAU'R FFORDD FAWR **A PHRYNWCH FERSIWN GYFOES**

Enghraifft 1 ar bapur y prawf

a) Cerddwyr yn Unig

b) Ras Gyfnewid o'ch Blaen

c) Ysgol o'ch Blaen

d) Tacsis yn Unig

Byddwch wedyn yn marcio (trwy roi cylch) beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

Enghraifft 2 ar bapur y prawf

5. **Pryd mae'n cael ei wahardd i ddefnyddio corn cerbyd mewn ardal adeiledig?.**

   a) O godiad haul hyd y machlud

   b) Rhwng 11:30pm a 7:00am

   c) Bob amser

   d) Rhwng 2am a 5am

Byddwch wedyn yn marcio (trwy roi cylch) beth yn eich barn chi yw'r ateb cywir.

ADRAN 7 - RHIFEDD (SGILIAU RHIFYDDEG) RHAID YSGRIFENNU'R ATEB I

LAWR

Byddwn yn gofyn nifer o gwestiynau rhifyddeg sylfaenol i chi (oherwydd y byddwch yn trin arian yn ddyddiol). Ni chewch ddefnyddio cyfrifiannell. **(Y marc pasio yw 5 allan o 6).**

Enghraifft 1 ar bapur y prawf

Mae cost taith yn £4.50. Mae'r teithiwr yn rhoi papur £10 i chi. Faint o newid fuasech chi'n roi?

Ateb_____**£5.50**_____

WEDI'R PRAWF

Cewch eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad y prawf ymhen 14 diwrnod gwaith trwy ebost. Dylech gysylltu â'r Adran Drwyddedu ar ôl y cyfnod hwn yn unig, am na fyddwch yn cael ateb cyn hynny.

Bydd dau ganlyniad syml

Os byddwch yn **PASIO** fe fyddwch yn derbyn ebost gyda dolen i wneud cais am drwydded Gyrrwr Llogi Preifat ar-lein. Gweler y **CC** am ddadansoddiad o'r dref.

Os byddwch yn **METHU**, cewch wybod ar ba adran(nau) y gwnaethoch fethu. Ni fydd yr Adran drwyddedu yn trafod pa gwestiynau a atebwyd yn anghywir (neu'n gywir) ac ni chewch weld y papur. **Os ydych yn anghytuno â'r canlyniad, gallwch apelio at y Rheolwr Trwyddedu trwy e-bostio environment.licensing@newport.gov.uk.**

OS YW'R YMGEISYDD AM BARHAU Â'R BROSES, BYDD GOFYN IDDO/I AIL-YMGEISIO (GAN GYNNWYS TALU FFÎ'R PRAWF) AC EISTEDD TRWY'R CYFLWYNIAD A CHYMRYD Y PRAWF UNWAITH ETO

UWCHRADDIO I FOD YN YRRWR CERBYD HACNI

Os ydych am ddod yn **Yrrwr Cerbyd Hacni**, bydd gofyn i chi yn gyntaf eistedd y **prawf Llogi Preifat**, a'i basio'n llwyddiannus. Bydd gennych gyfle wedyn i wneud cais i uwchraddio i Drwydded Ddeuol (Trwydded gyfun Gyrrwr Cerbyd Hacni a Gyrrwr Llogi Preifat) unwaith i chi gael y Drwydded Gyrrwr Llogi Preifat.

Os gwnewch gais am uwchraddio ymhen 6 mis o gael eich Trwydded Gyrrwr Llogi Preifat, fydd dim angen talu ffi ychwanegol.

Os bydd Gyrrwr Llogi Preifat wedi dal ei drwydded ers 6 mis neu fwy, ac am uwchraddio, bydd angen talu ffi'r prawf.

Bydd angen i'r ymgeisydd gael gwybodaeth drylwyr o Gasnewydd a'r cyffiniau. Bydd rhan o'r prawf yn golygu eich bod yn rhoi gwybodaeth fanwl am lwybrau yng Nghasnewydd **heb ddefnyddio map**. Bydd gofyn i chi enwi'r ffyrdd ac i ba gyfeiriad yr ydych yn teithio, a hefyd adnabod unrhyw nodweddion o bwys ar hyd y ffordd (e.e., goleuadau traffig, cylchfannau, llefydd o ddiddordeb).

Dylai'r ymgeisydd hefyd ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth a'r amodau perthnasol.

CWESTIYNAU CYFFREDIN (CC)

C – FYDD Y CWESTIYNAU YN CAEL EU HAILADRODD?
A – LLE MAE'R SWYDDOG YN DARLLEN CWESTIWN YN UCHEL, CAIFF EI DDARLLEN DDWYWAITH A DWYWAITH YN UNIG. PEIDIWCH Â GOFYN ETO NEU FE FYDDWCH YN CAEL EI ANGHYMHWYSO. RHAID I CHI WRANDO'N ASTUD

C – ALLA'I OFYN I'R SWYDDOG A ATEBAIS YN GYWIR NEU OFYN IDDO ROI'R ATEB CYWIR I MI?
A – PEIDIWCH Â GOFYN Y CWESTIWN HWN. RYDYCH YN SEFYLL PRAWF DAN AMODAU CAETH. OS GOFYNNWCH Y NAILL GWESTIWN NEU'R LLALL, CEWCH EICH ANGHYMHWYSO.

C – ALLA'I OFYN AM AMSER YCHWANEGOL?
A - NA, OS BYDDWCH YN PARHAU I YSGRIFENNU AR ÔL I'R SWYDDOG DDWEUD FOD Y PRAWF AR BEN, CEWCH EICH ANGHYMHWYSO YN AWTOMATIG.
FODD BYNNAG, PETAECH AM FYND YN ÔL AT UNRHYW ADRAN YN YSTOD YR AMSER SYDD AR GAEL I WIRIO NEU NEWID ATEB, GALLWCH WNEUD HYNNY (ER NA FYDD MODD GWNEUD HYN AM YR ADRANNAU SAESNEG SYLFAENOL)

C - FE FETHAIS. ALLA'I WELD/CAEL FY MHAPUR ATEBION WEDI IDDO GAEL EI FARCIO?
A- NA, DYW HYN DDIM YN BOSIB. OND FE FYDDWN YN RHOI GWYBOD I CHI PA ADRAN(NAU) Y GWNAETHOCH FETHU FEL Y GALLWCH GANOLBWYNTIO AR YR ADRANNAU PENODOL HYNNY.

C – RWY'N DEALL FOD ANGEN PRAWF MEDDYGOL ARNA'I, PRYD GALLA'I GAEL HWN?
A- UNWAITH I CHI GAEL GWYBOD EICH BOD WEDI **PASIO**'R PRAWF, GALLWCH WNEUD CAIS AM BRAWF MEDDYGOL TRWY LAWRLWYTHO'R DDOGFEN O WWW.NEWPORT.GOV.UK/TAXI .
RHAID EI LLENWI GAN EICH MEDDYG TEULU CHI NEU FEDDYG SYDD

WEDI GWELD EICH HOLL HANES MEDDYGOL. UNWAITH IDDI GAEL EI LLENWI, RHAID EI DYCHWELYD AT YR ADRAN DRWYDDEDU YMHEN 2 FIS O'I LLENWI.

C – FAINT FYDD Y PRAWF MEDDYGOL YN GOSTIO?
MATER RHYNGOCH CHI A'CH MEDDYG YW COST Y PRAWF MEDDYGOL; NID YW'N CAEL EI OSOD GAN Y CYNGOR.
AM RESTR LAWN O FFIOEDD ERAILL, EWCH AT Y WEFAN DRWYDDEDU.

C – MAE GEN I EUOGFARNAU TROSEDDOL/MODURO; ALLA'I DDAL I WNEUD CAIS AM Y PRAWF MEDDYGOL?
OS OES GENNYCH UNRHYW EUOGFARNAU TROSEDDOL NEU FODURO, Y PETH GORAU FYDDAI I CHI AROS AM EICH APWYNTIAD A CHAEL GAIR GYDA'R SWYDDOG. DAN RAI AMGYLCHIADAU, GALL CAIS GAEL EI WRTHOD OS OES GAN YR YMGEISYDD EUOGFARNAU. DYLECH NODI, OS GWNEWCH GAIS AM BRAWF MEDDYGOL A BOD EICH CAIS WEDYN YN CAEL EI WRTHOD, NA FYDD Y CYNGOR YN AD-DALU UNRHYW FFÎ FEDDYGOL.

C- BETH SYDD EI ANGEN WRTH GYFLWYNO FY NGHAIS?
A- BYDD GOFYN I'R YMGEISYDD DDANGOS Y CANLYNOL –

- CAIS WEDI EI GWBLHAU
- TRWYDDED YRRU GAN Y DVLA YN DANGOS ENW LLAWN A CHYFEIRIAD CYFREDOL.
- PASBORT DILYS CYFREDOL
- COD GWIRIO'R SWYDDFA GARTREF (OS OES ANGEN I GADARNHAU'R HAWL I WEITHIO)
- 1 MATH YCHWANEGOL O'CH ADNABOD A GYMERIR O RESTR Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (NEU 2 YCHWANEGOL OS NA ALL YR YMGEISYDD DDARPARU PASBORT DILYS)
- CYFEIRIAD EBOST DILYS (ER MWYN GWNEUD CAIS ARLEIN AM DDATGELIAD TROSEDDOL UWCH)
- COD GAN Y DVLA FEL Y GALL YR YMGEISYDD RANNU EI HANES

GYRRU GYDA'R ADRAN DRWYDDEDU. MAE MODD GWNEUD HYN ARLEIN AR WWW.GOV.UK/VIEW-DRIVING-LICENCE NEU TRWY FFONIO 03000 830013. DYLECH NODI FOD Y COD HWN YN DOD I BEN WEDI 21 DIWRNOD.

- PRAWF MEDDYGOL WEDI'I GWBLHAU (MANYLION UCHOD)
- LLUN DIWEDDAR MAINT PASBORT (MEWN LLIW)
- TYSTYSGRIF O YMDDYGIAD DA (OS NA FU'R YMGEISYDD YN BYW YN Y DU AM O LEIAF 5 MLYNEDD)
- BYDD ANGEN TALU'R FFIOEDD ANGENRHEIDIOL HEFYD (EWCH AT WWW.NEWPORT.GOV.UK/TAXI AM Y FFIOEDD CYFREDOL). BYDD HYN YN CYNNWYS FFÎ'R DRWYDDED A FFÎ DDATGELU'R GDG.

Bydd gofyn i chi hefyd gwblhau datganiad gyrrwr.

C – FUM I DDIM YN BYW YN Y DU AM 5 MLYNEDD YN DDI-DOR, ALLA'I DDAL I WNEUD CAIS AM DRWYDDED?

A- GALLWCH; FODD BYNNAG, BYDD GOFYN I CHI WNEUD CAIS AM **DYSTYSGRIF YMDDYGIAD DA** GYFOES O'R LLYSGENHADAETH NEU'R LLYSGENADAETHAU LLE'R OEDDECH YN BYW AR Y PRYD. MAE HYN YN WIR OS OEDDECH YN BYW YN Y GEE NEU'R TU ALLAN IDDI.

OS, AM UNRHYW RESWM, NA ALLWCH ATEB Y CAIS HWN, NI CHEWCH DRWYDDED HYD NES I CHI ALLU PROFI EICH BOD WEDI BYW YN Y DU AM O LEIAF 5 MLYNEDD YN DDI-DOR.

C- A OES AMSERLEN AR GYFER CWBLHAU FY NGHAIS?

A - OES, MAE GENNYCH 6 MIS O DDYDDIAD Y PRAWF GWYBODAETH I DDOD I APWYNTIAD (CAIFF HWN EI ANFON ATOCH WEDI I CHI BASIO) , DARPARU'R DOGFENNAU SYDD EU HANGEN A CHWBLHAU PRAWF MEDDYGOL A GDG. DIM OND DAN AMGYLCHIADAU EITHRIADOL Y CANIATEIR MWY O AMSER.

C – PRYD CAF I FY NHRWYDDED GYRRWR LLOGI PREIFAT?

A- DOES DIM UN ATEB PENODOL I HYN; MAE'R CYFAN YN

DIBYNNU AR YR YMGEISYDD UNIGOL.

MAE'N RHAID I'R ADRAN DRWYDDEDU WNEUD YN SIŴR FOD POB YMGEISYDD YN ADDAS I DDAL Y DRWYDDED ANGENRHEIDIOL A BOD POB GWIRIAD WEDI EI GYNNAL YN FODDHAOL (H.Y., GDG / DVLA / MEDDYGOL). OS NAD OES DIM YNGHYLCH YR YMGEISYDD I ACHOSI PRYDER A BOD YR HOLL DDOGFENNAETH YN DDILYS, GALL TRWYDDED GAEL EI RHOI YMHEN RHWNG 1 A 3 MIS.

EFALLAI Y BYDD GOFYN I RAI YMGEISWYR FYND GERBRON Y PWYLLGOR TRWYDDEDU (E.E., EUOGFARNAU TROSEDDOL/MODURO) ER MWYN I'R PANEL DDOD I BENDERFYNIAD AM Y CAIS. BYDD HYN YN OEDI MWY AR Y CAIS.

UNWAITH IDDI GAEL EI CHYHOEDDI, BYDD Y DRWYDDED YN DDILYS AM 3 BLYNEDD (NEU'R CYFNOD O AMSER Y BYDD GAN YR YMGEISYDD YR HAWL I WEITHIO YN Y DU; MAE HYN YN UNOL Â DEDDF MEWNFUDO 2016)

I ADNEWYDDU'R DRWYDDED, BYDD GOFYN I CHI GYFLWYNO CAIS CYN I'R DRWYDDED DDOD I BEN (BYDD YR HOLL WIRIADAU PERTHNASOL YN CAEL EU CYNNAL UNWAITH ETO)

OS CYFLWYNWCH GAIS WEDI I'R DRWYDDED DDOD I BEN, NI CHAIFF EI HADNEWYDDU NES I'R HOLL WIRIADAU ANGENRHEIDIOL GAEL EU CYNNAL. NI FYDD GENNYCH HAWL I YRRU CERBYD TRWYDDEDIG YN Y CYFNOD HWN.

OS NA FYDDWCH WEDI CYFLWYNO CAIS YMHEN 2 FIS I'R AMSER Y DAETH Y DRWYDDED I BEN, CEWCH EICH TRIN FEL YMGEISYDD NEWYDD A BYDD ANGEN I CHI AIL-EISTEDD Y PRAWF I GYCHWYN AR Y BROSES.